PARTNERIAETH RHEILFFYRDD Y
CAMBRIAN
RAILWAYS PARTNERSHIP

# Adroddiad SDRh 06/11/15:

**Help Llaw – prosiect ffilm:**
Ers y cyfarfod diwethaf rydym yn awr wedi cwblhau ein prosiect mawr am eleni sef ffilm Help Llaw / *Helping Hand* i bobl ifanc gydag anghenion arbennig. Roedd hon ar restr fer ar gyfer gwobr ACoRP yn y Categori 'Teithwyr sy'n Bwysig' ac er mawr fwynhad i ni fe enillodd y wobr.

Mae'r ffilm hefyd wedi ei chyflwyno ar gyfer Gwobrau Diwydiant Rheilffyrdd y DG, noson wobrwyo gorfforaethol genedlaethol, ac os yw'n llwyddo bydd cyfleoedd pellach i'r bartneriaeth o ran effaith gadarnhaol a phell-gyrhaeddol y ffilm ei hun ac ar gyfer ein prosiectau a'n cyhoeddiadau eraill.

Yn ychwanegol at hyn, yn ystod ein cyfarfodydd gyda'r Arglwydd Dafydd Elis-Thomas fe gytunodd i roi cyfleoedd i ni (fel noddwr) fel ein bod yn gallu dangos y ffilm ac annerch aelodau o senedd San Steffan, aelodau'r cynulliad, arglwyddi ac uwch weision sifil yn y Senedd yng Nghaerdydd a Phalas San Steffan yn Llundain. Mae'r trefniadau ar gyfer hyn yn mynd rhagddynt rhyngof i a swyddfa'r Arglwydd Dafydd Elis-Thomas.

Dangoswyd y ffilm erbyn hyn i nifer o fudiadau a grwpiau ac rydym wedi cael ymateb arbennig o gadarnhaol.

**Gorsaf Aberystwyth - Shopmobility**
Gan barhau gyda thema mynediad, rwyf wedi bod yn gweithio gyda CAVO ar wella mynediad i 'Shopmobility' yng Ngorsaf Aberystwyth. Drwy gydweithio gyda David Crunkhorn mae gennym ddechreuad cytundeb mewn egwyddor i gael man cyfarfod 'shopmobility' penodol yng ngorsaf Aberystwyth. Bydd teithwyr trên sydd wedi trefnu sgwter 'shopmobility' ymlaen llaw yn cael eu cyfarfod yn yr orsaf yn y man a bennwyd a rhoddir cyfarwyddiadau iddynt ar ddefnyddio'r sgwter mewn amgylchedd sych/dan do. Rydym hefyd yn edrych ar y cyd gyda TAC yn lleol a CAVO ar yr opsiwn o fedru cadw un neu fwy o'r sgwteri mewn safle ychwanegol penodol.

**Ymgyrch Posteri Ysgolion**
Rwyf wedi bod yn cynorthwyo Phil Caldwell o TAC gyda Ymgyrch Posteri Ysgolion sef ffrwyth rhaglen maes ysgolion a ddechreuodd gyda'r ffilm gyntaf a gynhyrchwyd gan PRhC – '*First Class Safety'*. Roedd y posteri yn rhan o raglen ble cafodd bob disgybl y gwaith o ddylunio poster diogelwch a dangoswyd nifer ohonynt yn y gorsafoedd oedd yn lleol i'r ysgolion.

**Cyhoeddiadau:**
Mae gwaith paratoi wedi dechrau ar daflen Amwythig i annog defnyddio Amwythig fel canolfan reilffordd i gael dyddiau allan ar drên y Cambrian, Calon Cymru a lein Caer. Arweinir hyn gan PRhC ac rydym yn dechrau ar y broses o adnabod syniadau ar gyfer 'dyddiau ar y trên' ar bob un o'r leiniau a hefyd i gael awgrymiadau ar beth i'w wneud yn ystod gyda'r nos yn Amwythig. Rwyf eisoes wedi cyfarfod gyda Tim King o 'Shropshire Tourism', David Edwards o HOWL a Sheila Dee o lein Amwythig Caer i drafod y prosiect yma ac rydym i gyd wedi cytuno y bydd hyn yn enghraifft ardderchog o brosiect ar y cyd rhwng ein sefydliadau.

O edrych ymlaen, rwyf yn raddol yn casglu gwybodaeth i lunio taflen i ymwelwyr/twristiaid ar sail Traethau a Chestyll - bydd hyn yn clymu i fewn i raddau gyda thema 'Blwyddyn Antur' Croeso Cymru. Rwyf wedi cael copïau o daflenni rheilffyrdd o Ffrainc sy'n effeithiol iawn yn hyrwyddo cyrchfannau gyda thraethau a chestyll (wedi ei anelu at dwristiaid) a charwn feddwl y byddem yn gallu llunio ein fersiwn ein hunain o'r ymgyrch yma, o gofio am y traethau a'r cestyll ardderchog sydd gennym yn yr ardal.

**Grŵp Gweithredu'r Cambrian:**
Fel rhan o'n gwaith gyda'r grŵp a gafodd ganiatâd gan y Gweinidog, rwyf wedi bod yn rhan o drefnu grwpiau ffocws ac arolygon yn ystod mis Hydref. Cyflwynir canlyniadau'r grwpiau ffocws a'r arolygon maes o law unwaith fo'r Gweinidog wedi cael golwg arnynt.

Rwyf hefyd yn delio gyda Chyngor Cymuned Caersws gan edrych ar y posibiliadau i gael trefniant mwy addas i barcio ceir yn yr orsaf ac mae'r Grŵp Gweithredu yn rhan o hyn.

**Rheilffyrdd Cymunedol Cymru**
Rwyf i ynghyd â fy nghydweithwyr ar leiniau eraill yng Nghymru wedi cyfarfod gyda'r Gweinidog ym mis Hydref i weld sut y gallai'r partneriaethau gael mwy (neu well) cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru. Roedd y cyfarfod yn un cadarnhaol iawn ac rydym yn cydweithio ar adroddiad i'r Gweinidog i amlinellu sut y gallai Rheilffyrdd Cymunedol yng Nghymru fod yn fwy amlwg mewn unrhyw drefniant masnachfraint yn y dyfodol.

**Gwefan**
Mae nifer yr ymwelwyr â'r wefan yn parhau i gynyddu gyda'r mwyafrif yn dod drwy Facebook a dolenni Twitter.

Gyda diolch am eich cefnogaeth.

Rhydian.